
Adolygiad o niwtraliaeth y we

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 13 Ionawr 2023

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

'Niwtraliaeth y we', y cyfeirir ato weithiau fel y 'rhyngwrwyd agored', yw'r egwyddor y dylai defnyddwyr y rhyngwrwyd (defnyddwyr a'r rhai sy'n gwneud ac yn dosbarthu cynnwys) – ac nid y darparwyr band eang neu symudol sy'n cysylltu pobl a busnesau â'r rhyngwrwyd (a elwir fel arall yn ddarparwyr gwasanaethau rhyngwrwyd neu ISPs) - fod â rheolaeth dros yr hyn y maent yn ei weld a'i wneud ar-lein. Mae rheolau niwtraliaeth y we'n gwneud yn siŵr bod y traffig sy'n cael ei gludo dros rwydweithiau band eang a symudol yn cael ei drin yn gyfartal ac nad yw cynnwys na gwasanaethau penodol yn cael eu blaenoriaethu na'u arafu fel bod rhai yn cael eu ffafrio dros eraill.

Wrth i'r rhyngwrwyd fynd yn rhan hanfodol o'n bywydau bob dydd, mae niwtraliaeth y we wedi chwarae rhan hanfodol wrth alluogi pobl i gael mynediad at y cynnwys a'r gwasanaethau maen nhw eu heisiau, o bori ar y we i wyllo fideos ffrydio i uwchlwytho cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd wedi galluogi darparwyr cynnwys newydd i gyrraedd miliynau o gwsmeriaid newydd a chyflawni graddfa fawr yn gyflym - er enghraifft, bedair blynedd ar ôl ei lansiad yn y DU, roedd gan TikTok bron i 19 miliwn o ymwelwyr sy'n oedolion yn y DU.

Fodd bynnag, oherwydd bod rheolau niwtraliaeth y we'n cyfyngu ar weithgareddau ISPs, gellir ystyried eu bod yn cyfyngu ar eu gallu i arloesi, datblygu gwasanaethau newydd a rheoli eu rhwydweithiau. Gallai hyn arwain at ddeilliannau gwael i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr nad ydynt yn elwa o wasanaethau newydd mor gyflym ag y dylent, neu ddim o gwbl. Gallai'r anfanteision posib hyn ddod yn fwy amlwg yn y dyfodol, wrth i ddefnydd pobl o wasanaethau ar-lein ehangu, wrth i draffig gynyddu ac wrth i fwy o alw gael ei roi ar rwydweithiau.

Rydym am sicrhau, wrth i dechnoleg esblygu ac wrth i fwy o'n bywydau symud ar-lein, bod niwtraliaeth y we'n parhau i gefnogi arloesedd, buddsoddiad a thwf, ar gyfer darparwyr cynnwys ac ISPs. Bydd cyflawni'r cydbwysedd cywir yn gwella profiadau defnyddwyr ar-lein, gan gynnwys trwy wasanaethau blaengar newydd a mwy o ddewis.

Mae rheolau niwtraliaeth y we presennol wedi'u nodi mewn deddfwriaeth a gariwyd drosodd o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Byddai unrhyw newidiadau i'r rheolau yn fater i Lywodraeth a Senedd y DU. Mae Ofcom yn gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau a darparu arweiniad ar sut y dylai ISPs eu dilyn. Y llynedd, dechreuon ni adolygiad o'r fframwaith niwtraliaeth y we yn y DU. Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi ein hasesiad o'r materion sydd wedi'u codi gyda ni ac yn cynnig arweiniad diwygiedig ar sut y dylai'r rheolau gael eu cymhwyso.

Beth rydym yn ei gynnig:

Yn gyffredinol, mae niwtraliaeth y we wedi gweithio'n dda ac wedi cefnogi dewis defnyddwyr yn ogystal â galluogi darparwyr cynnwys i gyflwyno eu cynnwys a'u gwasanaethau i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae yna feysydd penodol lle rydym yn cynnig mwy o eglurder yn ein harweiniad i alluogi ISPs i arloesi a rheoli eu rhwydweithiau'n fwy effeithlon, er mwyn gwella deilliannau i ddefnyddwyr:

- **Gall ISPs gynnig pecynnau manwerthu ansawdd premiwm:** Gall caniatáu i ISPs ddarparu pecynnau manwerthu ansawdd premiwm ddiwallu anghenion rhai defnyddwyr yn well. Er enghraifft, efallai y bydd pobl sy'n defnyddio cymwysiadau realiti rhithwir o ansawdd uchel eisiau prynu gwasanaeth ansawdd premiwm, a gallai defnyddwyr sy'n ffrydio ac yn pori'r rhyngwrwd yn bennaf brynu pecyn rhatach. Rydym yn cynnig arweiniad newydd sy'n egluro y gall ISPs gynnig pecynnau premiwm, er enghraifft cynnig oedi isel, cyn belled â'u bod yn esbonio'n ddigon clir i gwsmeriaid beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaethau y maent yn eu prynu.
- **Gall ISPs ddatblygu 'gwasanaethau arbenigol' newydd:** Mae rhwydweithiau 5G a ffeibr llawn newydd yn cynnig cyfle i ISPs arloesi a datblygu eu gwasanaethau. Rydym yn cynnig arweiniad sy'n egluro pryd y gallant ddarparu 'gwasanaethau arbenigol' i ddarparu cynnwys a chymwysiadau penodol y mae angen eu optimeiddio, a allai gynnwys realiti rhithwir a cherbydau heb yrwyr.
- **Gall ISPs ddefnyddio mesurau 'rheoli traffig' i reoli eu rhwydweithiau:** Gellir defnyddio rheoli traffig i reoli tagfeydd ar rwydweithiau fel bod gwasanaeth o safon dda'n cael ei gynnal ar gyfer defnyddwyr, ac felly rydym yn cynnig arweiniad sy'n egluro pryd y gall ISPs wneud hyn.
- **Bydd y rhan fwyaf o gynigion cyfradd sero yn cael eu caniatáu:** Cyfradd sero yw lle nad yw'r data a ddefnyddir gan wefannau neu apiau penodol yn cyfrif tuag at lwfans data cyffredinol y cwsmer. Rydym yn bwriadu diweddarau ein harweiniad i'w gwneud yn glir y byddwn yn gyffredinol yn caniatáu'r cynigion hyn, gan nodi'r amgylchiadau cyfyngedig pan allai fod gennym bryderon.

Rydym hefyd yn bwriadu fod yn fwy eglur ynghylch ein hymagwedd at orfodi pan fydd y budd cyhoeddus yn glir. Mae hyn yn cynnwys galluogi ISPs i flaenoriaethu a darparu mynediad cyfradd sero i'r gwasanaethau brys, cynnig mesurau rheoli i rieni, a rheoli traffig rhyngwrwd ar awyrennau a threnau pan nad oes ond capasiti cyfyngedig ar gael.

Rydym yn amlinellu barn ar set bellach o faterion lle gallai fod achos dros roi hyblygrwydd pellach i ISPs yn y dyfodol nad yw wedi'i ganiatáu o dan y rheolau presennol. Mater i Lywodraeth y DU ei ystyried fyddai hyn gan y byddai angen newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Y rhain yw:

- Caniatáu pecynnau manwerthu lle darperir cynnwys gwahanol at safonau ansawdd gwahanol, er enghraifft pecyn sydd ond â chymhwysiad chwarae gemau penodol gydag oedi isel gwarantedig;
- Caniatáu mwy o hyblygrwydd i gymhwyso rheolaeth draffig i gynnwys penodol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd; a
- Chaniatáu i gynnwys cyfradd sero barhau i gael ei gyrchu ar ôl i lwfans data cyffredinol y cwsmer redeg allan.

Yn olaf, rydym yn nodi ein barn ar y posibilrwydd o ganiatáu i ISPs godi tâl ar ddarparwyr cynnwys am gludo traffig, a allai arwain at ddefnydd mwy effeithlon o rwydweithiau. Er bod manteision posib i gyfundrefn codi tâl, nid ydym eto wedi gweld digon o dystiolaeth bod angen hyn ac rydym o'r farn y darperir digon o hyblygrwydd i ISPs yn ein cynigion eraill. Yn y pen draw, penderfyniad i Lywodraeth a Senedd y DU yw p'un a ddylid cyflwyno trefn codi tâl yn y DU ai beidio.

Y cefndir i'n hadolygiad

Cyflwynwyd rheolau niwtraliaeth y we i gyfraith yr UE yn 2016. Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE (ac ar ôl diwedd y cyfnod pontio), aeth y rheolau, gyda mân newidiadau, yn rhan o gyfraith ddomestig y DU.

Ers cyflwyno'r rheolau, bu esblygiad sylweddol yn ecosystem y rhyngwrwd:

- Mae maint y traffig wedi cynyddu'n sylweddol, gan yrru buddsoddiad gan ISPs i barhau i gyflwyno'r traffig sy'n cael ei ddefnyddio gan eu cwsmeriaid.
- Mae cyfran fawr o draffig y rhyngwrwd yn gysylltiedig â nifer o ddarparwyr cynnwys mawr sydd wedi ymddangos neu wedi tyfu mewn graddfa, fel Netflix ac Amazon Prime.
- Mae darparwyr eraill yn y gadwyn werth sydd hefyd yn dal swyddi porthmon ac yn rheoli'r cynnwys y mae defnyddwyr yn ei gyrchu, megis Apple a Google trwy'r systemau gweithredu iOS ac Android mewn ffonau clyfar.
- Mae technoleg yn esblygu fel bod rhwydweithiau sefydlog a 5G yn cynnig y cyfle i ddarparu ystod o wasanaethau newydd ac arloesol. Er enghraifft, profiadau realiti estynedig a realiti rhithwir newydd sy'n cynnig dulliau gwahanol o ryngweithio ag eraill a'r amgylchedd.

Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at safbwyntiau cystadleuol am effeithiolrwydd y fframwaith niwtraliaeth y we presennol. Mae ISPs, gan gynnwys gweithredwyr rhwydweithiau symudol, yn dadlau bod y rheolau'n golygu na allant arloesi ac adennill costau priodol gan y darparwyr cynnwys sy'n gyrru traffig ar eu rhwydweithiau. I'r gwrthwyneb, mae darparwyr cynnwys yn dadlau bod angen y rheolau i gefnogi gwasanaethau arloesol, a'u bod nhw eu hunain yn buddsoddi'n helaeth yn eu rhwydweithiau eu hunain i ddarparu traffig yn fwy effeithlon.

Ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad yw: (1) diogelu mynediad dinasyddion a defnyddwyr i rhyngwrwd agored, fel bod defnyddwyr yn gallu cyrchu a defnyddio cynnwys, apiau a gwasanaethau ar-lein o'u dewis, a hefyd dosbarthu gwybodaeth gyfreithlon ar-lein; (2) diogelu'r rhyngwrwd agored fel peiriant arloesi, fel bod gan ddarparwyr cynnwys ar-lein, apiau a gwasanaethau gymhelliannau cryfion dros arloesi'n barhaus; a (3) diogelu rhwydweithiau a redir yn dda ac sy'n effeithlon ac yn gadarn.

Cynhelir yr adolygiad hwn ar adeg bwysig yn natblygiad ymagweddau rheoleiddio at wasanaethau ar-lein. Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi disgrifio ei hymagwedd at ymgysylltu â marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau a sut mae hyn yn ffitio o fewn fframwaith rheoleiddio'r DU sy'n esblygu.¹ Mae'r adolygiad hwn yn rhan allweddol o'n gwaith mewn marchnadoedd digidol. Mae hefyd yn ategu gwaith diweddar y CMA mewn marchnadoedd digidol, yn enwedig ei archwiliad o ecosystemau symudol. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU yn cynnal ei Hadolygiad Strategaeth

¹ Ofcom, 2022. [Marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau: Ymagwedd Ofcom at gystadleuaeth a materion defnyddwyr mewn marchnadoedd cyfathrebu seiliedig ar y we.](#)

Ymgynghoriad: Adolygiad o niwtraliaeth y we

Seilwaith Di-wifr - mae ein hadolygiad yn cydnabod pwysigrwydd eglurder wrth ganiatáu i ISPs wireddu'r potensial ar gyfer arloesi a gynigir gan 5G.

Y Camau Nesaf

Rydym yn gwahodd ymatebion erbyn **13 Ionawr 2023** ac yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad yn hydref 2023.